
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pethau Iawn –

## Gwella trefniadau llywodraethu cymdeithasau tai yng Nghymru




Bwrdd Rheoleiddiol Cymru
Adolygiad o Gynnydd Trefniadau Llywodraethu Cymdeithasau Tai yng Nghymru
**Mawrth 2018**

## Hoffai'r Bwrdd Rheoleiddiol ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr Adolygiad hwn

### Ymgynghorydd annibynnol
Tamsin Stirling

### Grŵp Llywio'r Adolygiad:

**Cadeirydd – Bwrdd Rheoleiddiol Cymru**
Ceri Victory Rowe

**Cartrefi Cymunedol Cymru**
Stuart Ropke

**Cartrefi Cymunedol Cymru**
Claire McDougall

**Cartrefi Cymunedol Cymru**
Tim Blanch

**Tai Tarian**
Lisa Evans

**TPAS Cymru**
Steffan Evans

**Trivalis**
Don Snow

**Cartrefi Cymunedolol Gwynedd**
Paul McGrady

**Cymdeithas Tai Bro Myrddin**
Hilary Jones

**Cartrefi Conwy**
Bill Hunt

**Bwrdd Rheoleiddiol Cymru**
David Roberts

### Grŵp Gohebiaeth yr Adolygiad:

**Cartrefi Conwy**
Sandra Lee

Gayna Jones

**Cadarn**
Deb Austin

**Regulatory Board for Wales**
Helen White
Bob Smith
Doug Elliott

### Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru

### Staff Cartrefi Cymunedol Cymru a helpodd i weinyddu'r gweithdai.

### Rhwydwaith Swyddogion Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru

**Y llu o Aelodau Bwrdd a staff cymdeithasau tai a rhanddeiliaid yn y sector a roddodd o'u hamser i fynd i'n gweithdai ac ateb ein harolygon.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG34108 ISBN DIGIDOL: 978-1-78903-661-9

# Cynnwys


**Pam Adolygu Trefniadau Llywodraethu? Pam Nawr?** 4

**Edrych Nôl –** 6
Sut Mae Trefniadau Llywodraethu Wedi Newid Ers Adolygiad Llywodraethu 2013?

**Edrych i'r Dyfodol –** 8
Gwella Trefniadau Llywodraethu Cymdeithasau Tai yng Nghymru

**Y Pethau Iawn –** 10
Gweledigaeth ar gyfer llywodraethu da

**Cyfleoedd i Atgyfnerthu Trefniadau Llywodraethu'r Sector** 11

**Gwneud i Bethau Ddigwydd** 13

# Pam Adolygu Trefniadau Llywodraethu? Pam Nawr?

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn gyfrifol am gynghori'r Gweinidog Tai ac Adfywio ar berfformiad y sector cymdeithasau tai.

Ar ôl cael ei ailbenodi yn 2016, lluniodd y Bwrdd Rheoleiddiol farn gynnar, yn seiliedig ar adroddiadau ar gyswllt rheoleiddiol, fod ansawdd trefniadau llywodraethu yn y sector cymdeithasau tai yn gymysg o hyd – da mewn mannau ond yn anghyson â safonau llywodraethu modern mewn eraill.

Mae hyn yn destun pryder penodol pan fo'r sector yn gweithredu mewn cyd-destun tai a chyd-destun economaidd sy'n peri risgiau a heriau cynyddol gan barhau – fel y dengys gan waith Gorwelion Tai diweddar Cartrefi Cymunedol Cymru (gweler **www.chcymru.org.uk/cy/housing-horizons/** i gael rhagor o wybodaeth ) – i gael disgwyliadau uchel ynghylch yr hyn y gall y sector ei gyflawni yn y dyfodol. Mae cyd-destun gwaith cymdeithasau tai yn newid yn llawer cyflymach nag o'r blaen ac yn fwy sylfaenol na hynny, mae'n golygu bod sganio'r gorwel a gwneud cynlluniau cadarn ar gyfer newid yn bwysicach nag erioed.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae trefniadau llywodraethu o ansawdd uchel yn hollbwysig.

## Ysgogodd hyn y Bwrdd i gomisiynu Adolygiad er mwyn:

- Deall y cynnydd a wnaed yn sgil yr adolygiad mawr o drefniadau llywodraethu yn y sector a gynhaliwyd yn 2013;
- Cael darlun cadarnach a chliriach o ansawdd trefniadau llywodraethu yn y sector ar hyn o bryd;
- Deall yr agweddau a'r ymddygiadau sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu da;
- Ysgogi gwelliannau i drefniadau llywodraethu ym mhob rhan o'r sector.

## Dull Cydweithredol

Wrth lunio cwmpas yr Adolygiad, roedd y Bwrdd yn glir y dylai gysylltu'n agos ag adolygiad Cartrefi Cymunedol Cymru o'i God Llywodraethu ac y dylai lywio'r cymorth llywodraethu sy'n cael ei ddatblygu gan Cartrefi Cymunedol Cymru. (Gweler Atodiad 1 am gwmpas llawn yr Adolygiad).

Cafodd yr Adolygiad ei gynnal gan ymgynghorydd annibynnol, Tamsin Stirling, ac aelodau o'r tîm rheoleiddio a chafodd y gwaith a'r canfyddiadau eu goruchwylio gan grŵp llywio, a gadeiriwyd gan aelod o'r Bwrdd Rheoleiddiol, a oedd yn cynnwys ystod o gynrychiolwyr sector a rhanddeiliaid.

Gan gydnabod bod llywodraethu yn bwysig i bawb sy'n gysylltiedig â chymdeithasau tai, roedd yr Adolygiad yn awyddus i glywed gan gynifer o'r rhain â phosibl drwy arolygon, gweithdai a gwaith penodol gyda thenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau, benthycwyr a rheolwyr rheoleiddio.

## Rydym yn Awyddus i'r Gwaith Hwn Wneud Gwahaniaeth

Mae'r Bwrdd Rheoleiddiol wedi bod yn glir mai nod yr Adolygiad hwn yw ysgogi gwelliannau i drefniadau llywodraethu ym mhob rhan o'r sector, nid llunio adroddiad adolygu sgleiniog. Rydym am sicrhau bod canfyddiadau'r Adolygiad yn hygyrch i'r holl gymdeithasau tai a'u bod yn eu defnyddio.

Mae llywodraethu da yn galw am sylw parhaus. Rydym am i'n canfyddiadau helpu pob cymdeithas dai i ystyried ansawdd ei threfniadau llywodraethu yn drylwyr ac yn barhaus er mwyn ysgogi gwelliannau.

**O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn fyr ac mae iddo ffocws penodol, sef:**

- Cynnydd ers adolygiad 2013 a'r hyn sydd ar ôl i'w wneud;
- Negeseuon allweddol i Fyrddau ar yr hyn y mae angen iddynt ei ystyried er mwyn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn addas i'r dyfodol a'u bod yn parhau felly;
- Gweledigaeth ar gyfer trefniadau llywodraethu da;
- Cyfleoedd i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu.

Cafodd canfyddiadau'r Adolygiad eu datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr y sector a rhanddeiliaid sy'n aelodau o'r grŵp llywio.

Ceir gwybodaeth gefndir bwysig, rhagor o fanylion ac adolygiad o lenyddiaeth mewn adroddiad atodol arall er mwyn helpu Byrddau a staff cymdeithasau tai wrth iddynt adolygu ansawdd eu trefniadau llywodraethu a gweithio i'w gwella.

## I Bwy Mae'r Adroddiad?

Prif gynulleidfa'r adroddiad hwn yw Byrddau cymdeithasau tai, gan mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros drefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ymwneud â llywodraethu cymdeithasau tai neu sydd â diddordeb yn y mater.

## Rheoleiddio Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru yn nodi'r safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae pob cymdeithas dai yn gyfrifol am ddangos i'r Rheoleiddiwr ei bod yn bodloni'r safonau perfformiad hynny drwy hunanasesiad sy'n cynnwys tystiolaeth glir a datganiad o gydymffurfiaeth, a ddilysir drwy brosesau goruchwylio a sicrwydd rheoleiddiol parhaus.

Bwrdd y Gymdeithas Dai sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros ansawdd trefniadau llywodraethu.

Disgwylir i bob sefydliad ddangos i'r Rheoleiddiwr ei fod wedi mabwysiadu'r model llywodraethu mwyaf effeithiol a bod y model yn cael ei gymhwyso'n gywir.

Mae'r safonau perfformiad yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymdeithas dai fabwysiadu cod llywodraethu priodol a chydymffurfio ag ef.

Yng Nghymru, mae bron pob cymdeithas wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru.

Rhaid i'r Bwrdd fodloni ei hun y gall ddangos yn glir i'r Rheoleiddiwr ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu a fabwysiadwyd ganddo.

Mae'r Adolygiad hwn yn cyd-fynd â gwaith parhaus y tîm rheoleiddio. Nid yw gweledigaeth y Pethau Iawn a'r cyfleoedd a nodir yn rhan o'r gofynion rheoleiddiol ond, fel rhan o brosesau goruchwylio rheoleiddiol, bydd rheolwyr rheoleiddio yn trafod sut mae cymdeithasau unigol yn ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad.

# Edrych Nôl –
## Sut Mae Trefniadau Llywodraethu Wedi Newid Ers Adolygiad Llywodraethu 2013?

Tynnodd Astudiaeth y Sector yn 2013 sylw at yr angen am newid mawr ym maes trefniadau llywodraethu cymdeithasau tai yng Nghymru.

**www.gov.wales/statistics-and-research/sector-study-governance-housing-associations-registered-wales/?skip=1&lang=cy**

Gan adlewyrchu'r ffaith nad oedd y maes llywodraethu cymdeithasau tai wedi datblygu'n ddigonol bryd hynny, roedd yr argymhellion yn canolbwyntio'n bennaf ar brosesau a systemau.

Mae'n galonogol gweld bod y sector wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion 2013 a bod newid diwylliannol cyffredinol i'w weld gyda chymdeithasau tai yn llawer mwy ymwybodol o bwysigrwydd a buddiannau trefniadau llywodraethu da.

Fodd bynnag, fwy na phedair blynedd yn ddiweddarach, erys nifer o feysydd lle mai cyfyngedig fu cynnydd.

Mae angen gwneud mwy i gyflawni'r newid sylweddol yn ansawdd trefniadau llywodraethu a oedd ei angen yn ôl adolygiad 2013.

Rydym wedi ystyried pam na lwyddwyd i gyflawni mwy a, heblaw am ystyriaethau sy'n berthnasol i sefydliadau unigol, gallwn weld dwy ffactor ym mhob rhan o'r sector sydd wedi cyfrannu at hyn.

Yn gyntaf, ni wnaeth adolygiad 2013 unrhyw ddarpariaeth benodol ynghylch atebolrwydd am fonitro a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'i argymhellion. Yn ail, ni wnaed unrhyw beth i ddelio â phwy ddylai arwain agweddau at drefniadau llywodraethu cymdeithasau tai yng Nghymru.

Mae'r cyfleoedd a nodir fel rhan o'r Adolygiad hwn yn 2018 yn ceisio sicrhau y caiff y ffactorau hyn eu trin yn y dyfodol.

### Beth sydd wedi gwella? A ble mae angen gwneud rhagor o waith?

#### Sut rydym yn gwybod?

Yn ogystal â gwybodaeth o arolygon a gynhaliwyd gyda chymdeithasau tai, tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol yn y sector a gweithdai a gynhaliwyd gydag uwch aelodau staff cymdeithasau tai ac Aelodau Bwrdd, rydym wedi asesu cynnydd ar sail mewnbwn manwl gan y rhai sy'n gwybod fwyaf am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad – rhwydwaith swyddogion llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru a rheolwyr rheoleiddio.


Roedd adolygiad 2013 yn cynnwys 25 o argymhellion. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gamau gweithredu ar gyfer cymdeithasau tai unigol gyda nifer lai ohonynt yn gamau gweithredu ar gyfer y sector yn ei gyfanrwydd.

Rydym wedi cynnwys canfyddiadau manylach yn ein hadroddiad atodol ond dyma syniad o'r hyn a welwyd.

### Cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 2013 ar gyfer cymdeithasau tai unigol

Ar y cyfan, gwelsom mai cynnydd cyfyngedig a wnaed mewn perthynas â mwy na hanner y camau gweithredu a argymhellwyd. Trosolwg o'r sector yn ei gyfanrwydd yw hwn. Gwyddom fod rhai cymdeithasau wedi gwneud llawer o gynnydd tra bod eraill wedi gwneud llawer llai.

#### Cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 2013 – cymdeithasau unigol



### Gwelwyd bod cynnydd nodedig wedi'i wneud mewn perthynas â'r argymhellion y dylai pob cymdeithas gael y canlynol:

- Cynlluniau gwella trefniadau llywodraethu;
- Dogfennau llywodraethu craidd;
- Matricsau sgiliau a disgrifiadau rôl ar gyfer Aelodau Bwrdd;
- Cyfnodau penodedig ar gyfer Aelodau Bwrdd;
- Cyfraniad ystyrlon gan Aelodau Bwrdd at lunio'r cynllun busnes a monitro risgiau strategol yn fanwl.

### Nid yw meysydd allweddol eraill wedi cael eu gweithredu'n llawn eto:


- Cyfathrebu – â'r ystod lawn o randdeiliaid.
    - Nid yw pob cymdeithas yn rhoi gwybodaeth am ei chydymffurfiaeth â'r Cod mewn adroddiadau blynyddol a/neu ar wefannau.
    - Nid yw pob cymdeithas yn rhoi gwybodaeth am safonau llywodraethu na'i chydymffurfiaeth â'r safonau hyn mewn adroddiadau blynyddol neu ar wefannau.
- Mae gan gyfran sylweddol o gymdeithasau Aelodau Bwrdd sydd wedi gwasanaethu'r bwrdd am o leiaf dair blynedd yn fwy na'r cyfnod hwyaf a nodir yn y cod a fabwysiadwyd gan y gymdeithas.
- Nid yw pob cymdeithas yn dangos ymrwymiad i wella gallu ariannol yr Aelodau Bwrdd.
- Nid yw pob Bwrdd yn adolygu gwybodaeth broffil am denantiaid a sut y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio mewn perthynas â newidiadau i'r amgylchedd allanol.

Mae nifer o'r meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt o hyd yn cyd-fynd ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Awst 2017. **www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11151/cr-ld11151-w.pdf**

## Cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 2013 ar gyfer y Sector

Yn achos mwyafrif yr argymhellion ar gyfer y sector, dim ond cynnydd rhannol oedd i'w weld, er bod cynnydd da wedi'i wneud mewn rhai meysydd.

### Cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 2013 ar gyfer y Sector




Llwyddwyd i nodi ystod sylweddol o gamau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion ond cawsom anhawster asesu effaith y camau hynny a daethom i'r casgliad y dylai ffocws ar ganlyniadau fod yn elfen allweddol o ganfyddiadau'r Adolygiad hwn.

Gwelwyd cynnydd llawn mewn perthynas â'r Cod Llywodraethu ar gyfer y sector a chydnabyddiaeth bwrdd.

Mae cynnydd sylweddol i'w weld mewn perthynas ag annog byrddau i recriwtio aelodau ar sail cymhwysedd; cynhadledd ar lywodraethu, diben cymdeithasol a masnacheiddio; a ffocws ar risgiau lefel uchel.

Bu cynnydd yn fwy cyfyngedig o ran sut y gellir newid y model trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr (LSVT) ar ôl y blynyddoedd cyntaf; strwythurau ymgysylltu, yn enwedig ar gyfer cadeiryddion; buddsoddi mewn cronfa dalent o swyddogion anweithredol; cysylltu Aelodau Bwrdd a rhannu arfer da; a llunio gweledigaeth gynhwysol ac amrywiol o lywodraethu da.

Ni welwyd cynnydd sylweddol mewn perthynas â chadarnhau pa gorff sy'n arwain agweddau at lywodraethu.

# Edrych i'r Dyfodol –
## Gwella Trefniadau Llywodraethu Cymdeithasau Tai yng Nghymru

Rydym wedi crynhoi'r cyfoeth o wybodaeth ac adborth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad er mwyn rhoi rhai negeseuon allweddol ynghylch yr hyn sydd ei angen er mwyn cyflawni a chynnal trefniadau llywodraethu sy'n addas i'r dyfodol a llunio gweledigaeth ar gyfer llywodraethu da i'w defnyddio gan Fyrddau wrth iddynt feddwl am eu trefniadau llywodraethu eu hunain a sut mae angen iddynt ddatblygu a gwella.

## Negeseuon Allweddol

Cyflwynir y negeseuon hyn i Aelodau Byrddau gan mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am lywodraethu, ond maent o ddiddordeb amlwg i bawb sy'n ymwneud â llywodraethu cymdeithasau tai neu sydd â diddordeb yn y mater.

### Peidiwch â meddwl nad yw hyn yn berthnasol i chi na'ch sefydliad

- Mae angen i bawb gymryd y cyfleoedd sy'n codi o'r Adolygiad hwn o ddifrif – nid oes unrhyw gymdeithas dai yn berffaith.
- Mae angen talu sylw cyson i lywodraethu – nid yw gwaith i wella trefniadau llywodraethu byth yn dod i ben.
- Nid oes unrhyw un yn ddiogel rhag problemau llywodraethu. Efallai mai eich sefydliad chi fydd yr un nesaf mewn trafferth. Gall unrhyw sefydliad fod yn agored i niwed.

## Mae sicrwydd Bwrdd cadarn yn hollbwysig

- Rhaid i bob Aelod Bwrdd sicrhau ei fod yn:
    - Deall ei gyfrifoldebau'n llawn fel Aelod Bwrdd;
    - Gwybod yn union beth sy'n digwydd yn ei sefydliad ac yn ymwybodol o ansawdd ei drefniadau llywodraethu;
    - Gofyn am sicrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn – fel Aelod Bwrdd, ni ddylech fodloni ar dderbyn gair rhywun;
    - Hyderus bod trefniadau sicrwydd bwrdd y sefydliad yn addas at y diben ac yn addas i'r dyfodol.

## Bydd y pwyslais ar lywodraethu da ond yn cynyddur

- Trefniadau llywodraethu gwael sydd wrth wraidd pob cymdeithas dai sy'n methu. Peidiwch â gadael i hyn ddigwydd i'ch sefydliad chi.
- Gwybod yn union beth sy'n digwydd yn ei sefydliad ac yn ymwybodol o ansawdd ei drefniadau llywodraethu.
- Gofyn am sicrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn – fel Aelod Bwrdd, ni ddylech fodloni ar dderbyn gair rhywun.
- Hyderus bod trefniadau sicrwydd bwrdd y sefydliad yn addas at y diben ac yn addas i'r dyfodol.

### Nid oes un model o drefniadau llywodraethu da sy'n addas i bawb

- Mae'r Adolygiad hwn yn cynnig gweledigaeth ar gyfer llywodraethu da a deunydd ategol i'ch tywys i'r cyfeiriad cywir ond mae angen i chi benderfynu beth sy'n gywir i'ch sefydliad chi.
- Ym mhob cymdeithas dai, mae angen i Aelodau Bwrdd, y Tîm Gweithredol, tenantiaid, defnyddwyr gwasanaethau ac eraill benderfynu ar y model llywodraethu cywir, ei roi ar waith a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben.
- Eich bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am bob agwedd ar lwyddiant neu fethiant eich cymdeithas – peidiwch â disgwyl i'r Rheoleiddiwr roi'r ateb enghreifftiol i chi.

### Mae'r camau nesaf ar ein taith lywodraethu yn ymwneud ag ymddygiadau a diwylliant

- Roedd argymhellion adolygiad 2013 yn canolbwyntio'n bennaf ar systemau a phrosesau ac mae cynnydd wedi cael ei wneud, ond mae angen mwy. Mae agweddau llywodraethu modern yn pwysleisio bod ymddygiadau a diwylliannau yn hollbwysig i lywodraethu da a bod angen canolbwyntio ar hyn yn y dyfodol.
- Mae angen ffocws drwy'r sector cyfan ar ymddygiadau a diwylliant a gaiff ei gefnogi gan systemau a phrosesau effeithiol a'i lywio gan arweinwyr da/arweinyddiaeth dda.
- Mae diwylliant ac ymddygiadau yr un mor bwysig i lywodraethu da â'r broses – os nad ydynt yn gywir, mae perygl o fethu. Heb y bobl gywir, ni fydd y prosesau na'r strwythurau gorau hyd yn oed yn arwain at lywodraethu da.
- Ond: – mae prosesau a strwythurau yn bwysig o hyd ac mae mwy o waith ar ôl i'w wneud. Ni ddylid esgeuluso hyn wrth i ni newid ein ffocws i ymddygiadau a diwylliant.

### Er mwyn llwyddo, bydd angen y canlynol arnoch

- Arweinyddiaeth effeithiol gan y Cadeirydd, y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol;
- Sgiliau, ymddygiadau ac agweddau priodol – gan y Cadeirydd, Aelodau Bwrdd a'r Tîm Gweithredol;
- Safbwyntiau cadarn gan denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau.
  Mae llywodraethu da yn cynnwys ffyrdd o ddeall a blaenoriaethu profiad tenantiaid yn briodol e.e. gan ddefnyddio gwybodaeth gan gwsmeriaid. Bydd adolygiad nesaf y Bwrdd Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar hyn. Canfu'r Adolygiad hwn fod rhoi tenantiaid wrth wraidd gwasanaethau yn wahanol i gael tenantiaid ar eich bwrdd. Dim ond un o'r opsiynau sydd ar gael i sefydliadau er mwyn cael safbwyntiau effeithiol gan denantiaid a defnyddwyr gwasanaethau yw hwn. Mae'n ddiffygiol oherwydd mae Aelodau Bwrdd sy'n denantiaid neu'n ddefnyddwyr gwasanaethau yno fel unigolion ac nid fel cynrychiolwyr tenantiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau.


# Y Pethau Iawn –
## Gweledigaeth ar gyfer llywodraethu da

Mae'r Pethau Iawn yn fframwaith lefel uchel ar gyfer deall beth yw llywodraethu da. Fframwaith dangosol yw hwn, nid un rhagnodol ac nid yw'r rhestr ysgogiadau yn gynhwysfawr o bell ffordd. Awgrymiadau yw'r ysgogiadau i gymell sefydliadau i feddwl am bum thema allweddol y fframwaith. Maent yn dangos y math o bynciau a allai fod yn ddefnyddiol i'w hystyried o dan bob un o feysydd y Pethau Iawn ond mae angen i bob bwrdd a sefydliad benderfynu beth yw'r Pethau Iawn ar gyfer eu hamgylchiadau eu hunain.

Hoffem weld cymdeithasau tai yn defnyddio'r fframwaith hwn i'w hysgogi i hunanfyfyrio a gwerthuso a rhoi strwythur i sgyrsiau adeiladol am lywodraethu da, o fewn cymdeithasau, o fewn y sector a rhwng cymdeithasau a'r Rheoleiddiwr.

Gall sefydliadau benderfynu drostynt eu hunain beth sydd angen iddynt ei ystyried er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y peth cywir o safbwynt llywodraethu.

## Gweledigaeth ar gyfer Llywodraethu Da



# Cyfleoedd i Atgyfnerthu Trefniadau Llywodraethu'r Sector

Gallwn weld cyfleoedd gwirioneddol i sicrhau'r trefniadau llywodraethu o ansawdd sydd eu hangen i'r dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen mewnbwn gan bawb – cymdeithasau unigol, Cartrefi Cymunedol Cymru, y Bwrdd Rheoleiddiol a'r Rheoleiddiwr – a lefel uchel o gydweithio effeithiol. Yr un nod sydd gan bawb yn y pen draw – trefniadau llywodraethu ardderchog i gefnogi sector cymdeithasau tai sy'n fywiog ac yn iach.

## Cyfleoedd i gymdeithasau tai unigol

- Ailedrych ar argymhellion 2013 a mynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.
- Defnyddio ac addasu fframwaith y Pethau Iawn er mwyn helpu i werthuso eich model, polisïau, arferion ac ymddygiadau llywodraethu eich hun yn barhaus.
- Adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu yn rheolaidd – o leiaf unwaith y flwyddyn. Er mwyn sicrhau trefn ddilysu a herio annibynnol, hoffai'r Bwrdd Rheoleiddiol fod yr adolygiad hwn yn cynnwys, bob tair blynedd o leiaf, adolygiad ffurfiol a chynhwysfawr o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu sy'n ystyried arferion llywodraethu datblygol yn y sector cymdeithasau tai a thu hwnt ac yn cynnwys elfen annibynnol e.e. adolygiad gan gymheiriaid neu ddefnyddio ymgynghorydd.

## Cyfleoedd i'r sector

- Diwallu'r angen am arweinyddiaeth agweddau ym maes llywodraethu drwy ffurfio grŵp i chwarae'r rôl honno. Mae arwain agweddau yn golygu datblygu a rhannu arfer, arloesedd ac arbenigedd o'r radd flaenaf.
- Yn y byrdymor i'r tymor canolig, dylai'r grŵp hwn hefyd oruchwylio ymdrechion i achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r Adolygiad hwn a barnu effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerir, gan ganolbwyntio'n glir ar ganlyniadau yn hytrach na gweithredoedd, yn ogystal â chynnig mewnbwn allweddol i Cartrefi Cymunedol Cymru wrth ymgorffori trafodaethau a dadleuon ynghylch llywodraethu yn ei holl ddigwyddiadau a'i rwydwaith.
- Dylai aelodau'r grŵp hwn gynnwys aelodau o'r sector, y Rheoleiddiwr, cynrychiolwyr o'r Bwrdd Rheoleiddiol ac eraill a ddewisir am eu gallu i wneud cyfraniad clir, effeithiol at arweinyddiaeth agweddau ym maes llywodraethu a pherchenogir y Grŵp ar y cyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a'r Bwrdd Rheoleiddiol.

## Cyfleoedd i'r Rheoleiddiwr

- Dylai'r Rheoleiddiwr barhau i roi mwy o bwyslais ar lywodraethu drwy gyswllt rheoleiddiol, a gaiff ei ddwyn i gyfrif gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru a chymhwyso'r fframwaith rheoleiddiol mewn ffordd gymesur ac effeithiol gan nodi'n glir ac yn gynnar pan fo safonau llywodraethu yn syrthio islaw'r safonau disgwyliedig.
- Dylai'r Rheoleiddiwr rannu'r gwersi a ddysgir drwy reoleiddio â'r sector yn rheolaidd, gan gynnwys yr arwyddion cynnar o broblemau llywodraethu posibl.
- Dylai'r Rheoleiddiwr roi mwy o eglurder i'r sector ynghylch disgwyliadau rheoleiddiol mewn perthynas â llywodraethu.

## Cyfleoedd i Fwrdd Rheoleiddiol Cymru

- Meithrin dealltwriaeth well o'r ffordd y gall gwybodaeth cwsmeriaid a chyfranogiad tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau lywio a llunio trefniadau llywodraethu drwy ei adolygiad thematig o drefniadau ymgysylltu â thenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau sydd i'w gynnal yn 2018.
- Parhau i ddatblygu ei rôl i gefnogi'r newid tuag at drefniadau llywodraethu gwell.

## Cyfleoedd i Cartrefi Cymunedol Cymru

- Rhoi mwy o gymorth i'r sector er mwyn gwella'r broses recriwtio Aelodau Bwrdd ar sail sgiliau, gwerthoedd ac ymddygiadau sydd ei hangen er mwyn galluogi'r sector i gyflawni ei uchelgeisiau yn y dyfodol.
- Cynyddu ymdrechion i ddatblygu cronfa dalent amrywiol o ddarpar Aelodau Bwrdd.
- Sicrhau bod ei becyn cymorth llywodraethu yn cydnabod rôl arwain bwysig y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu effeithiol ac yn addas i ystod eang o ddarpar dderbynwyr gan gynnwys Cadeiryddion, Aelodau Bwrdd, darpar Gadeiryddion ac Aelodau Bwrdd, ymarferwyr llywodraethu ac uwch dimau rheoli.
- Dylai'r pecyn cymorth gwmpasu meysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn ystod yr Adolygiad h.y.:
    - Cyfleoedd rhwydweithio;
    - Hwyluso/cefnogi gwaith adolygu gan gymheiriaid;
    - Cymorth mentora/hyfforddiant i arweinwyr;
    - Cymwysterau achrededig;
    - Panel cynghori arbenigol (sy'n gysylltiedig â'r grŵp arwain agweddau arfaethedig ond nid yn rhan ohono);
    - Cysylltiadau â sectorau eraill er mwyn rhannu arferion llywodraethu effeithiol yn ogystal â gwersi a ddysgwyd o fethiannau llywodraethu;
    - Datblygu Come On Board ymhellach er mwyn hwyluso trefniadau effeithiol i recriwtio Aelodau Bwrdd;
    - Pecyn datblygu Cadeiryddion/darpar Gadeiryddion;
    - Pecyn datblygu i Aelodau Bwrdd;
    - Broceru hyfforddiant/cymorth mentora.
- Gwella mynediad at y cyfoeth o brofiad a gwybodaeth ym maes llywodraethu sy'n bodoli eisoes yn y sector drwy hwyluso cymorth gan gymheiriaid a rhannu gwybodaeth/arfer da. Roeddem yn teimlo y dylid ystyried gwefan bwrpasol yn ogystal â'r potensial i gael nawdd er mwyn talu costau.
- Cydnabyddiaeth ffurfiol bod llywodraethu effeithiol yn hanfodol er mwyn galluogi'r sector i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn Gorwelion Tai. **www.chcymru.org.uk/cy/housing-horizons/**
- Cynnwys ac ymgorffori materion a thrafodaethau ynghylch llywodraethu ym mhob cynhadledd, digwyddiad a gwaith polisi, gan weithio'n agos gyda'r grŵp arwain agweddau.

# Gwneud i Bethau Ddigwydd

Mae'n flaenoriaeth i'r Bwrdd Rheoleiddiol y dylai'r Adolygiad Llywodraethu a'r adroddiad ar gynnydd wneud gwahaniaeth drwy ysgogi camau gweithredu ym mhob rhan o'r sector ac ymhlith rhanddeiliaid allweddol.

Ni all hynny ddigwydd oni bai bod y dull gweithredu cydweithredol, agored a gonest a fu'n sail i'r Adolygiad hwn yn parhau i'r dyfodol. Credwn fod modd cael trefniadau llywodraethu ardderchog yn y sector ond rhaid cael ymrwymiad gan bawb.

Mae'r cynnydd a wnaed ers 2013 yn dangos bod y sector yn ymrwymedig i wella ond mae'r cynnydd araf a wnaed mewn rhai meysydd yn tynnu sylw at yr angen am ffocws newydd a mwy o fomentwm.

Rydym am weld y sector a'i bartneriaid allweddol yn achub ar y cyfleoedd a nodir yn yr adroddiad hwn.

### Os bydd hynny'n digwydd, rydym yn gobeithio gweld:

- Trafodaethau rheolaidd a chadarnhaol yn cael eu cynnal rhwng yr holl gymdeithasau tai, a rhwng cymdeithasau tai a'r Rheoleiddiwr, ynghylch addasrwydd eu strwythurau, prosesau ac ymddygiadau llywodraethu at y diben;
- Trafodaeth genedlaethol fywiog a pharhaus am drefniadau llywodraethu cymdeithasau tai a ysgogir gan ystod o allbynnau gan y grŵp arwain agweddau, gan gynnwys proffil uwch i faterion llywodraethu yng nghynadleddau a digwyddiadau'r sector;
- Arfer da sefydledig ac, yn y pen draw, lai o fethiannau llywodraethu yn y sector;
- Cymdeithasau tai yng Nghymru yn cael eu cydnabod am drefniadau llywodraethu o ansawdd uchel.

Gan ddysgu o adolygiad 2013, bydd y grŵp arwain agweddau yn gyfrifol am fonitro cynnydd mewn perthynas â'r cyfleoedd a nodir yn yr adroddiad hwn ac am ddatblygu trefniadau llywodraethu da ymhellach ym mhob rhan o'r sector cymdeithasau tai.

I ddechrau, y bwriad oedd i'r Adolygiad hwn nodi ac amlygu arfer llywodraethu da yn y sector. Daeth i'r amlwg yn fuan bod hyn yn anodd iawn i'w gyflawni mewn cyd-destun lle nad oes un enghraifft gyffredin o lywodraethu da yn briodol.

Mae grŵp swyddogion llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru wedi gwirfoddoli i rannu arfer a gwybodaeth rhwng sefydliadau a sectorau er mwyn helpu'r sector i wella trefniadau llywodraethu.